Andrew Melville 1545–1622

Prifathro coleg a diwinydd

Ganwyd Andrew Melville yn Baldovy ger Montrose, Angus, ar 1 Awst 1545, yr ieuengaf o naw o feibion Richard Melville. Bu farw ei dad ym mrwydr Pinkie ddwy flynedd ar ôl ei enedigaeth a chafodd ei fagu gan ei frawd Richard. Aeth i ysgol ramadeg Montrose lle y dysgodd beth Lladin a Groeg ac ym 1559 aeth i Goleg St Mary ym Mhrifysgol St Andrews gan ennill gradd MA oddeutu 1563. Dywedodd un sylwebydd mai ef oedd 'yr athronydd, y bardd a'r Groegwr gorau trwy'r holl wlad'. Treuliodd wedyn ddwy flynedd yn astudio ym Mhrifysgol Paris a thair blynedd ym Mhrifysgol Poitiers. Symudodd i Genefa lle yr arbenigodd mewn diwinyddiaeth. Cafodd swydd yno yn dysgu Lladin yn y coleg a daeth yn ffrindiau gyda'r athronydd Joseph Scaliger.

Wedi pum mlynedd yn Genefa fe'i perswadiwyd gan ei gyfoedion i ddychwelyd i'r Alban er mwyn iddo rannu ei ysgolheictod gyda'i gydwladwyr. Fe'i penodwyd yn brifathro Prifysgol Glasgow ym 1574 a phenderfynodd wneud newidiadau mawr i'r cwricwlwm a'r dulliau dysgu yno a adlewyrchai bwyslais dyneiddiol yr oes. Dylanwadodd yn fawr hefyd ar yr eglwys yn yr Alban. Byddai'n mynychu cyfarfodydd o'r Gymanfa Gyffredinol ac yn awgrymu gwelliannau i'w strwythur er mwyn iddi weithredu yn fwy effeithiol. Bu trafodaeth fanwl ar swyddogaeth esgob yn y Testament Newydd a beth oedd natur y swydd honno o fewn Eglwys yr Alban. Etholwyd ef yn Gymedrolwr Cymanfa Gyffredinol yr Eglwys yn Ebrill 1578. Ym 1580 fe'i penodwyd yn brifathro Coleg St Mary ym Mhrifysgol St Andrews. Ar ôl symud i'r fan honno dechreuodd ddiwygio'r cwricwlwm ar unwaith ond cododd gwrthwynebiad ymhlith cydweithwyr mwy ceidwadol eu hysbryd. Bu dadlau poeth rhyngddynt ynglŷn â safbwyntiau gwahanol Ramus ac Aristotlys ond Melville enillodd y dydd. Ym 1584 gwysiwyd ef i ymddangos gerbron y Cyfrin Gyngor a'i gyhuddo o deyrnfradwriaeth oherwydd cynnwys pregeth a draddododd lle cymharodd y brenin i Nebuchodonosor (Llyfr Daniel). Yn sgil hyn fe ffodd gyda'i frawd Roger i Loegr gan chwilio am loches. Yn y cyfnod hwn ymwelodd â Llundain, Rhydychen a Chaergrawnt.

Dychwelodd i'r Alban a daeth i wrthdrawiad gyda'r Brenin Iago VI. Gwrthwynebai Melville Ddeddfau Du (Black Acts) 1584 a bwysleisiai oruchafiaeth y brenin ac awdurdod yr esgobion. O ganlyniad gwaharddwyd ef am gyfnod rhag pregethu yn Saesneg i'r bobl ar y Sul. Dyma pryd y traddododd ef ei anerchiadau enwog am 'ddwy deyrnas' oedd yn sôn am natur wahanol awdurdod eglwysig ac awdurdod sifil. Aeth pethau o ddrwg i waeth. Gwaharddwyd ef gan y brenin o henaduriaethau'r eglwys, fe'i diswyddwyd fel Rheithor Prifysgol St Andrews ac fe'i gorchmynnwyd i adael y Gymanfa Gyffredinol.

Pan rwystrodd y Brenin Iago y Gymanfa Gyffredinol rhag cyfarfod ym 1604 cynhaliodd Melville a'i gyfeillion Gymanfa arbennig yn Aberdeen y flwyddyn ddilynol. Gwysiwyd ef gan y brenin i Lundain lle y cyfarfu ag ef yn Hampton Court gan amddiffyn rhyddid ac annibyniaeth y Gymanfa Gyffredinol. O ganlyniad fe'i carcharwyd yn Nhŵr Llundain ym 1607. Ymhen pum mlynedd fe'i rhyddhawyd ond fe'i gwaharddwyd rhag dychwelyd i'r Alban. Yn groes i'r graen derbyniodd wahoddiad i fynd yn athro Diwinyddiaeth Feiblaidd yn Sedan, Ffrainc, ac yno y bu farw ym 1622. Ystyrir Melville fel olynydd teilwng i John Knox a safai'n gadarn dros egwyddorion y Diwygiad Protestannaidd.